Penrhyncoch

Wedi cael gwahoddiad i ymweld â Choleg y Llyfrgellwyr aeth llond bws o'r plant yno y noson o'r blaen a threulio amser arbennig o ddiddorol wrth grwydro o amgylch yr adeilad. Derbyniwyd ni gan Mr Glyn Collins ac ef aeth â ni hwnt ac yma i weled y pethau hynod o ddiddorol sy'n y coleg. Cafodd y plant hwyl arbennig yn y stiwdio deledu a braf oedd gweld pob un ohonynt ar y sgrin. Cawsom y cyfle o glywed a gweld Sharon a Wayne yn canu hefyd. Syndod oedd gweld cymaint o offer darllen sydd ar gael ar gyfer pobl fethiedig ac am y modd y medrir cael gwybodaeth o'r Amerig ar wahanol lyfrau trwy gyfrwng y compiwter. Bu'r noson yn un hynod o lwyddiannus a barn y plant oedd mai dyma'r ymweliad mwyaf diddorol o bob un.

Balch iawn oedd pawb ohonom o ddeall am lwyddiant Miss Gwenan Jones yn ennill y goron yn Eisteddfod yr Urdd ym Mro Colwyn. Yma y bu Miss Jones yn gwneud ei ymarfer dysgu. Athrawes ym Môn yw hi ar hyn o bryd ond deil i gadw cysylltiad â ni ym Mhenrhyncoch.

Y mae Mrs Eirian Morgan wedi bod adref yn sal ond da yw deall ei bod yn llawer iawn gwell. Buom yn ffodus o gael gwasanaeth Mrs Mary Thomas yn ystod y cyfnod hwn. Bu Mr I.E.Jones yn ei wely hefyd am ychydig ddiwrnodau ond hyfryd yw ei weld yntau'n ôl gennym. Deallwn bod Mrs Pat Evans ar wellhad ac y bydd yn dychwelyd atom yn y dyfodol agos.

Yr ydym i gyd yn brysur y diwrnodau hyn y paratoi ar gyfer ein Ffair Haf ar y 13eg o'r mis.